Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf ag Emyr Jones (Nantglyn) a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli chwaer Emyr, sef Ceinwen Thomas. Cofiwn hefyd am Delyth Williams (Llansannan) a'r teulu oll yn eu profedigaeth hwythau o golli brawd Delyth, sef Wynne Williams. Cyflwynwn y teuluoedd hyn, ynghyd ag eraill sy'n galaru am anwyliaid, i ofal Duw a gweddïwn y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.

Anfonwn ein cofion at Elwyn Roberts (Llansannan) sydd wedi treulio peth amser mewn gwahanol ysbytai yn ddiweddar. Ar hyn o bryd, mae'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Hyderwn y bydd yn cryfhau ychydig bach mwy bob dydd ac y bydd yn ddigon da i gael dod adref yn fuan.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Emily Williams (Groes) ar ddathlu pen-blwydd arbennig y penwythnos yma.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Gofal Dydd Capel y Waen

Cafwyd neges gan Dr Mari Lloyd Williams i ddweud y bydd Gofal Dydd yn ail-gychwyn ar ôl y Pasg wedi cyfnod o fod ar gau. Mae Gofal Dydd yn cynnig gwasanaeth i unigolion yn Sir Ddinbych a'r ardaloedd cyfagos sydd angen cefnogaeth arbennig neu sydd (y tu allan i'r cyfyngiadau presennol) yn gaeth i'w cartrefi. Os hoffech wybod mwy am y cynllun neu os gwyddoch am rai fyddai'n elwa o'r gwasanaeth, anfonwch ebost i helpugilydd@gmail.com neu ysgrifennwch at: Canolfan Gofal Dydd, Capel Annibynwyr Waengoleugoed, Waen, Llanelwy LL17 0DY.

Manylion Cyswllt

Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 07814 660291

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (7fed), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 28 Mawrth 2021

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn wynebu'r ail Basg gyda chysgod bygythiol COVID 19 yn parhau o'n cwmpas. Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn aeth heibio, mae'n anodd dirnad mor enbyd y bu'r effaith ar gymaint o bobl mewn gwahanol ffyrdd. Ond wrth i ni droi'n golwg at groes Calfaria a'r bedd gwag, cawn ein hatgoffa eto eleni bod newyddion da Iesu yn neges berthnasol ac yn allweddol i fyd sydd mewn dryswch.

Fel y cawsom glywed yng ngwasanaeth dydd Sul diwethaf, bu Cwrs y Beibl yn gymorth i nifer ohonom fedru gweld darlun mawr y Beibl yn fwy eglur. Ac wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen, daeth y cyswllt rhwng yr Hen Destmaent a'r Testament Newydd yn gliriach hefyd. Ystyriwch gymaint o sôn sy'n yr Hen Destament am y deml er enghraifft: y man sanctaidd yn Jerwsalem oedd yn cynrychioli presenoldeb Duw ar y ddaear. Beth sydd gan y Testament Newydd i'w ddweud am y deml? Â ninnau ar drothwy dathliadau'r Pasg, dyma un disgrifiad o groeshoeliad Iesu yn Marc 15:37-38 Beibl.net: *'Ond yna dyma Iesu'n gweiddi'n uchel, yna stopio anadlu a marw. A dyma'r llen oedd yn hongian yn y deml yn rhwygo yn ei hanner o'r top i'r gwaelod.'* Mae Iesu'n marw ar y groes a chawn ein symud ar wib i'r deml yn Jerwsalem lle mae'r llen wedi'i rhwygo o'r top i'r gwaelod. Pam fod hyn mor bwysig? Oherwydd ei fod yn arwyddo Duw yn derbyn pobl ato'i hun! Fel y mae'r heddlu i'w gweld yn diogelu'r Senedd yng Nghaerdydd neu Balas Buckingham, roedd llen y deml yn arwydd amlwg bod mynediad at y Duw sanctaidd wedi'i gyfyngu. Yn ôl y Gyfraith Iddewig dim ond unwaith y flwyddyn y câi'r archoffeiriad fynd trwy'r llen fewnol at y 'Lle Mwyaf Sanctaidd', at bresenoldeb y Duw byw, a hynny er mwyn cyflwyno aberth am bechodau'r bobl ar Ddydd y Cymod.

Ond wrth i Iesu farw ar y groes, gwelwyd cariad Duw yn disgleirio a newidiodd popeth! Nid oes angen aberthau a defodau i ddod at Dduw bellach, gan fod Iesu wedi talu'r pris yn llawn a sicrhau maddeuant. Derbyniwyd aberth unwaith am byth Iesu dros bechod gan Dduw, sy'n golygu bod modd i unrhyw un ddod at Dduw trwy ffydd yn Iesu Grist.

Wrth feddwl am len y deml yn rhwygo, cofiwch eiriau Iesu: *"Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd. Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof fi."* (Ioan 14:6) Ydym ni wedi derbyn ei wahoddiad?

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

(Cofiwch, os nad yw'n bosib i chi ymuno â'r oedfaon ar fore Sul, mae modd i chi wrando unrhyw bryd wedi i'r darllediad ddod i ben. Mae'r holl oedfaon i'w cael trwy glicio ar y llun 'Gwe-ddarllediadau Bro Aled' ar dudalen flaen gwefan yr ofalaeth [eglwysibroaled.com].

Sul – 28ain

- **Gwasanaeth (Llannefydd)** ar Zoom am 10:00 yng nghwmni'r Parch. Aneurin Owen.
- **Ysgol Sul ar-lein**
  Cynhelir Ysgol Sul ar Zoom am 10.30. *(Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.)*
- **Oedfa FYW ar y we**
  Cynhelir oedfa ar YouTube am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. *(Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)*
- **Cyfarfod Gweddi** ar Zoom am 8:00 yr hwyr. *(Cliciwch ar y llun 'Cyfarfod Gweddi' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)*

Mercher – 31ain

- **Astudiaeth y Pasg** ar Zoom am 7:30 yr hwyr. *(Cliciwch ar y llun 'Astudiaeth y Pasg' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] i ymuno.)*

Mercher – 31ain – Iau 1af

- **24 awr gweddi (Llanw mewn partneriaeth â Ffald y Brenin)** Cyfle, ar Zoom, o 8:00 yr hwyr nos Fercher tan 8:00 yr hwyr nos Iau i weddïo y bydd Duw yn ein cryfhau, ein hannog, ein herio, ac yn rhoi gweledigaeth, ffydd a gobaith newydd i ni yn ein cymunedau, yng Nghymru a'r byd. Gofynnir inni lenwi ffurflen sydd i'w chael ar wefan Llanw [www.llanw.org/gweddi] i nodi yr awr/oriau y gallwn ymrwymo i weddïo ac er mwyn derbyn yr wybodaeth i allu ymuno ar Zoom.

Gwener – 2il

- **Oedfa'r Groglith i'r Fro** ar Zoom am 10:30. Os nad yw'n bosibl i chi ymuno ar y we, gallwch ffonio 0203 481 5240 i ymuno â'r oedfa. *(Byddwch angen y 'Meeting ID' canlynol: 860 8221 2382#, ac yna pwyswch # fel ateb i'r ail gwestiwn.)* Os gallwch ymuno dros y we, ewch i wefan yr ofalaeth [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa'r Groglith' ar y dudalen flaen.

Sul – 4ydd

- **Oedfa Sul y Pasg yn FYW ar y we**
  Cynhelir oedfa ar YouTube am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. *(Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)*

Sul – 11eg

- **Oedfa FYW ar y we**
  Cynhelir oedfa ar YouTube am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. *(Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa Bore Sul' ar y dudalen flaen i ymuno.)*

Llanw 2021

Eleni, bydd Llanw yn digwydd fel gŵyl rithiol ar-lein.

Bydd dathliad yn cael ei ddarlledu'n fyw o Gaernarfon ar dudalen *Facebook* ac *YouTube* Llanw (www.youtube.com/user/gwylllanw) **nos Lun, 5ed o Ebrill** am 7.00 yr hwyr. Cadi Gwyn a Meilyr Geraint fydd yn arwain yr addoliad a'r band byw, ceir anogaeth o'r Gair gan Nan Powell-Davies, a bydd cyfraniadau a thystiolaethau o bob rhan o'r wlad. Yn dilyn y dathliad, bydd sesiynau 'ar ôl oriau' ar Zoom.

Hefyd, bydd sesiynau wedi eu trefnu i'r plant a'r ieuenctid:

- **Zoom Plant Llanw (oed cynradd): Bore Llun, Ebrill 5ed** am 10.30. Cofrestrwch cyn y 30ain o Fawrth a bydd y plant yn derbyn pecyn hwyl yn y post i gydfynd gyda'r sesiwn. Mae cofrestru ymlaen llaw yn angenrheidiol er mwyn cynorthwyo yr arweinwyr i baratoi deunydd addas ac hefyd am resymau diogelwch. (Ewch i www.llanw.org/llanw-21 i gofrestru.)

- **Zoom Ieuenctid Llanw (bl 7-11): Nos Lun, Ebrill 5ed am 8.30** (yn dilyn y dathliad). Mae cofrestru ymlaen llaw yn angenrheidiol er mwyn cynorthwyo yr arweinwyr i baratoi deunydd addas ac hefyd am resymau diogelwch. (Ewch i www.llanw.org/llanw-21 i gofrestru.)

Yna, ar y tair noson ddilynol – **Ebrill 6ed, 7fed a'r 8fed**, bydd Astudiaethau Beiblaidd ar Zoom am 7.00 yr hwyr fydd yn cael eu harwain gan Gwilym Jeffs (Dathlu'r Atgyfodiad – o Farwolaeth i Fywyd), Alun Thomas (Dathlu'r Atgyfodiad – o Fywyd i Fywyd) a Gwilym Tudur (Dathlu'r Atgyfodiad – o Fywyd i Ogoniant). (Bydd y manylion cysylltu ar gael ar Facebook ac ar wefan Llanw.